GIG CYMRU NHS WALES | Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan University Health Board

Cymraeg

# ADRODDIAD BLYNYDDOL SAFONAU'R GYMRAEG 2024 - 2025



# RHAGAIR



Mae'n bleser gen i rannu Adroddiad Blynyddol ar Safonau'r Gymraeg Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan ar gyfer 2024-2025 gyda chi.

Rydym ni fel Bwrdd Iechyd yn credu'n gryf na ddylai'r Gymraeg fod yn darged ar ei phen ei hun, ond yn hytrach, yn rhywbeth sydd wedi'i gwreiddio ym mhob agwedd o'n gwaith a chredaf bod yr adroddiad hwn yn dangos yr uchelgais hwnnw. Mae cyfathrebu yn allweddol o ran darparu'r gofal iechyd gorau, ac rydym yn credu'n gryf bod darparu gwasanaethau Cymraeg yn holl bwysig i'n defnyddwyr gwasanaeth sy'n siarad Cymraeg.

Gobeithio y byddwch yn mwynhau darllen am y cynnydd yr ydym wedi'i wneud hyd yma yn ogystal â'n gweledigaeth ar gyfer y dyfodol.

Diolch

NICOLA PRYGODZICZ
PRIF WEITHREDWR

# RHAGAIR



Pleser o’r mwyaf yw cyflwyno Adroddiad Blynyddol ar Safonau'r Gymraeg Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan ar gyfer 2024-2025. Mae ein hymrwymiad i ddarparu'r gwasanaethau Cymraeg gorau i'n cymunedau yn parhau'n ddiysgog.

Fe welwch o'r adroddiad hwn cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg yn unig yw ein ffocws wrth gyflawni’r gwaith hwn, ond yn hytrach ddefnyddio dull holistaidd ehangach i sicrhau ein bod yn diwallu anghenion ein poblogaeth yng Ngwent.

Drwy weithio mewn partneriaeth â'n staff a chydweithio â phartneriaid a rhanddeiliaid gan gynnwys Llywodraeth Cymru a Chomisiynydd y Gymraeg, rydym yn cyflawni blaenoriaethau Mwy na Geiriau a Safonau'r Iaith Gymraeg. Gobeithiwn y byddwch yn mwynhau ein hadroddiad.

SARAH SIMMONDS,
CYFARWYDDWR Y GWEITHLU A DATBLYGIAD SEFYDLIADOL



# MYNEGAI


CYFLWYNIAD 5

RHEOLI, GWEINYDDU A CHYDYMFFURFIAETH O RAN SAFONAU'R GYMRAEG 6

CRYNODEB FLYNYDDOL 7

GWASANAETHAU AR-LEIN DWYIEITHOG 8

YMGYSYLLTU Â'N DARPAR WEITHLU 10

SYRJERI SGILIAU 11

YMGYSYLLTU GYDA STAFF 12

ADNODDAU A HYFFORDDIANT AR GYFER STAFF 14

LLWYFANNAU DIGIDOL 17

GWEITHIO AR Y CYD 18

ASESIADAU O'R EFFAITH AR GYDRADDOLDEB AC YMWELIADAU SAFLE 19

DATA DANGOSYDD PERFFORMIAD 20

CYFIEITHU 23

CWYNION 24

CASGLIAD A GWELEDIGAETH AR GYFER 2024 – 2025 25

CIPOLWG AR DDATA 27

# RHAGARWEINIAD

Mae ein hadroddiad blynyddol yn tynnu sylw at y gwaith a wneir gan y sefydliad i hwyluso a darparu gwasanaethau cyfrwng Cymraeg i gleifion a defnyddwyr gwasanaeth o fewn yr ardal y mae'r Bwrdd Iechyd yn ei gwasanaethu.

Yn unol â Safonau'r Gymraeg, mae'r adroddiad yn cyflwyno crynodeb flynyddol i'r cyhoedd a'r rheoleiddiwr cenedlaethol, sef Comisiynydd y Gymraeg. Y cyfnod adrodd yw 1af Ebrill 2024 i 31ain Mawrth 2025.

Amlinellir y ffordd y caiff targedau'r Gymraeg eu monitro'n fewnol yng Nghynllun Pobl y Bwrdd Iechyd, a chânt eu hadrodd yn allanol i Lywodraeth Cymru yn unol â strategaeth genedlaethol Mwy na Geiriau.

Dogfen strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer darparu gwasanaethau Iechyd a Gofal Cymdeithasol drwy gyfrwng y Gymraeg yw'r cynllun Mwy na Geiriau. Gellir dod o hyd i'r cynllun cyfredol yn ogystal â'r camau gweithredu manwl cysylltiedig [yma.]

Rydym yn falch o allu adrodd ein bod wedi gwneud cynnydd yn erbyn yr amcanion a nodwyd yn yr adroddiad blaenorol. Mae ein gwaith mapio iaith ar ei anterth, rydym wedi gwneud cynnydd sylweddol mewn perthynas â'n gwasanaethau digidol, ac mae ein strategaeth i gynyddu ymgynghoriadau clinigol wedi'i datblygu ac ar y gweill. Bydd manylion am y gwaith uchod yn cael eu rhoi yn nes ymlaen yn yr adroddiad hwn. Er ein bod yn dal i wynebu heriau sylweddol o ran ein gallu i ddarparu gwasanaethau Cymraeg i'r boblogaeth leol, rydym ar y trywydd iawn.

Yn unol â Safon 120, mae'r adroddiad hwn hefyd yn disgrifio gwybodaeth benodol mewn nifer o feysydd allweddol. Mae'r data hwn yn cynnwys:

- Lefel cymhwysedd ein staff yn y Gymraeg,
- Yr hyfforddiant yr ydym yn ei gynnig drwy gyfrwng y Gymraeg a,
- Nifer y cwynion a gawsom mewn perthynas â'r Gymraeg,
- Y cymwyseddau Cymraeg sydd ei hangen arnom ar gyfer bob swydd wag a swydd newydd a hysbysebir yn ystod y cyfnod dan sylw.



# RHEOLI A GWEINYDDU CYDYMFFURFIAETH Â SAFONAU'R GYMRAEG

**Atebolrwydd, Llywodraethu a Sicrwydd**

Mae cyfrifoldeb am bortffolio'r iaith Gymraeg yn eistedd o dan gylch gwaith Cyfarwyddwr Gweithredol y Gweithlu a Datblygiad Sefydliadol o fewn y Bwrdd Iechyd, er bod gan y sefydliad cyfan gyfrifoldeb i sicrhau cydymffurfiaeth â Safonau'r Gymraeg, a osodwyd ar y Bwrdd Iechyd gan Gomisiynydd y Gymraeg.

**Uned y Gymraeg**

Mae Uned y Gymraeg yn eistedd o fewn cyfarwyddiaeth Gweithlu a Datblygiad Sefydliadol y Bwrdd Iechyd, ac mae'n cynnwys staff sy'n gweithio ar lefel strategol, rheolaethol, a chynllunio a pholisi iaith. Ei phrif swyddogaeth yw cynghori'r Bwrdd Iechyd ynghylch cydymffurfiaeth â deddfwriaeth genedlaethol a darparu gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae Uned y Gymraeg yn adrodd i Grŵp Strategol y Gymraeg bob chwarter. Yn y cyfarfod bydd Uned y Gymraeg yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y gwaith sy'n cael ei wneud ar hyn o bryd gan yr Uned a'r Bwrdd Iechyd cyfan.

**Grŵp Strategol y Gymraeg (WLSG)**

Grŵp llywodraethu traws-sefydliadol mewnol y Bwrdd Iechyd yw'r WLSG sy'n cymeradwyo gwaith Uned y Gymraeg.

Prif bwrpas y WLSG yw rhoi cyngor a sicrwydd i'r Bwrdd Iechyd o ran ei gyfrifoldebau i gydymffurfio â'i rwymedigaethau statudol o ran darparu gwasanaethau Cymraeg i'r boblogaeth leol.

Mae'r WLSG yn adrodd i Bwyllgor Pobl a Diwylliant y Bwrdd Iechyd, sy'n atebol i'r Bwrdd.

Mae'r WLSG yn cyflwyno Adroddiad Monitro Blynyddol i Dîm Gweithredol y Bwrdd Iechyd, gan gadarnhau cydymffurfiaeth â'i gylch gorchwyl a'i gyfrifoldebau allweddol, yn ogystal â rhoi'r sicrwydd i'r pwyllgorau perthnasol a grybwyllir uchod.

**Rheoli Risg:**

Mae'r Gymraeg wedi'i chydnabod yn ffurfiol fel blaenoriaeth strategol o fewn Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan ac mae wedi'i chofrestru ar y Cofrestrau Risg ar hyn o bryd. Mae hyn yn sicrhau bod y Bwrdd Iechyd yn cynnal fframwaith lywodraethu gadarn o amgylch cydymffurfiaeth a datblygiad yr Iaith Gymraeg, yn unol â Safonau'r Gymraeg.

# CRYNODEB FLYNYDDOL

Mae'r Safonau y mae angen i'r Bwrdd Iechyd lynu atynt o dan adran 44 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011, wedi'u cynnwys yn yr HysbysiadCydymffurfio y gellir dodo hyd iddo ar ein gwefan.

Rydym yn parhau i gynyddu'r wybodaeth sydd gennym ar sgiliau Cymraeg ein gweithlu. Mae hyn yn ein galluogi i ddeall yn well ym mhle mae ein sgiliau presennol o fewn ein gweithlu a ble y mae angen i ni dargedu cefnogaeth briodol megis dysgu Cymraeg a'n rhaglen tiwtoriaid Cymraeg lwyddiannus er mwyn codi hyder y rheiny sydd â sgiliau Cymraeg.

Mae ein gwaith o ran cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg ymhlith ein darpar weithlu wedi datblygu ymhellach yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Yn ein hadroddiad blaenorol, cyfeiriom at ein rhaglen Syrjeri Sgiliau gan nodi sut y mae'n ysbrydoli plant ysgolion cynradd ac yn eu dysgu am yr hyn sy'n bosibl o fewn y maes iechyd. Rydym wedi datblygu'r sesiynau hyn ymhellach er mwyn i ysgolion allu eu cyflwyno'n annibynnol.

Mae offer a llwyfannau digidol yn parhau i ddatblygu'n gyflym ac mae arloesi'n digwydd yn y maes hwn ar draws nifer o feysydd gwasanaeth y Bwrdd Iechyd. Rydym yn gweithio'n agos gyda'n cydweithwyr yn yr adran Data Digidol a Thechnoleg a'r adrannau clinigol sy'n darparu'r gwasanaethau hyn yn uniongyrchol er mwyn sicrhau y gall ein defnyddwyr gwasanaeth sy'n siarad Cymraeg ddefnyddio pob technoleg newydd yn llwyr.

Yn unol â safon 110, rydym wedi datblygu a chyhoeddi ein cynllun 5 mlynedd ar gynyddu nifer yr ymgynghoriadau clinigol a gynhelir drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'r gwasanaeth ffisiotherapi wedi'i nodi fel y gwasanaeth cyntaf a fydd yn cyflwyno'r targedau hyn.

Yn unol â'r targed newydd hwn, rydym yn gweithio gyda'n cydweithwyr ar gynyddu'r adnoddau generig a gynhyrchir er mwyn creu adnoddau arbenigol newydd sy'n hyrwyddo sgiliau geirfa ein staff, gan roi'r geiriau/ymadroddion ychwanegol i'n cydweithwyr i'w cefnogi wrth ofalu am ein defnyddwyr gwasanaeth sy'n siarad Cymraeg.

Rydym wedi parhau i ddatblygu mecanweithiau ar gyfer ymgysylltu â'n staff a'u cefnogi, gan gynnwys sesiynau mewn rhaglenni datblygu sefydliadol allweddol yn ogystal â rhaglen newydd o weithdai ar gyfer rheolwyr adrannol allweddol.

# GWASANAETHAU DWYIEITHOG AR-LEIN

## Ein Gwefan Gorfforaethol

Mae ein gwefan gorfforaethol yn un o'n llwyfannau cyfathrebu pwysicaf ac mae'n cynnwys llawer iawn o wybodaeth ar gyfer ein poblogaeth leol. Mae'n bleser gennym adrodd, ar y cyfan, bod cydymffurfiad yn parhau'n gadarnhaol yn y maes hwn. Mae adnoddau cyfieithu mewnol ac allanol yn parhau ar gael er mwyn sicrhau y gall y tîm cyfathrebu gwrdd â'r galw cynyddol barhaus am gynnwys Cymraeg, ac mae hon yn parhau i fod yn broses sydd wedi'i hen sefydlu.

Eleni lansiwyd *Canllaw Iechyd Gwent*, nodwedd ar ein gwefan sy'n gwasanaethu fel gwiriwr symptomau lleol er mwyn cyfeirio trigolion Gwent at y man gorau i fynd i gael cymorth brys. Mae hyn wedi parhau yn nodwedd gwbl ddwyieithog ar y wefan.






Recite me

### Ein tudalennau mwyaf poblogaidd

- Ysbyty Athrofaol y Faenor
- Ysbyty Brenhinol Gwent
- Fferyllfeydd

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi ymrwymo i gynnal mynediad at offeryn hygyrchedd gwefan Recite Me. Mae hyn yn sicrhau y gall siaradwyr Cymraeg sydd ag anghenion mynediad megis nam ar y golwg barhau i gael mynediad llawn i'n gwefan Gymraeg.

Mae ymgysylltiad â'r wefan gorfforaethol cyfrwng Cymraeg wedi gostwng ychydig yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Cafwyd ychydig o dan 3000 o ymweliadau o'i gymharu â bron i 4000 y flwyddyn flaenorol. Rydym bob amser yn ceisio gwella ein cydymffurfiaeth yn y maes hwn gan sicrhau, i eithaf ein gallu, bod y wybodaeth ddiweddaraf ar y wefan bob amser.

http://

# PRESENOLDEB AR Y CYFRYNGAU CYMDEITHASOL



Mae'n bleser gennym, unwaith eto, adrodd bod pob cyfathrebiad a gynhyrchwyd gan y Tîm Cyfathrebu ac Ymgysylltu wedi aros yn gwbl ddwyieithog drwy gydol y cyfnod hwn. Mae nifer y dilynwyr ar ein cyfrifon cyfrwng Cymraeg wedi aros yn gyson yn ystod y cyfnod hwn, ac eithrio ar ein cyfrif X. Mae'n bwysig nodi bod y gostyngiad yn nifer y dilynwyr ar y ddau gyfrif X yn debygol o fod oherwydd gostyngiad cyffredinol yn nifer y defnyddwyr ar draws y platfform.

| Sianel | Cyfrwng | Nifer y Dilynwyr 2023/24 | Nifer y Dilynwyr 2024/25 |
|---|---|---|---|
| | Cymraeg | 327 | 328 |
| | Saesneg | 109,238 | 112,193 |
| | Cymraeg | 252 | 240 |
| | Saesneg | 26,456 | 25,600 |
| | Cymraeg | 155 | 186 |
| | Saesneg | 13,349 | 14,405 |

## Ein Hymgyrchoedd

Fel rhan o Diwrnod Shwmae eleni, fe wnaethon ni arddangos gwaith un o'n bydwragedd galar, Louise, a gafodd ei hysbrydoli i sicrhau bod fersiynau Cymraeg o flychau atgofion babanod ar gael ar ôl cwblhau cwrs lefel mynediad er mwyn dysgu'r iaith ei hun a thrwy hyn sylweddolodd pa mor bwysig yw iaith yn y broses alaru.





> "Pan mae pobl yn galaru, mae'n holl bwysig eu bod yn gallu cyfathrebu yn eu mamiaith. Fe wnaeth cwblhau fy nghwrs dysgu Cymraeg atgyfnerthu pwysigrwydd cael y blychau atgofion hyn yn y Gymraeg ar gyfer ein poblogaeth sy'n siarad Cymraeg, felly roeddwn i wir yn teimlo'n angerddol dros sicrhau eu bod ar gael ar gyfer ein teuluoedd."







I gefnogi'r ymgyrch 'Defnyddia dy Gymraeg' Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg, fe hyrwyddom hawliau'r cyhoedd i gael mynediad at ein gwasanaethau yn y Gymraeg, yn ogystal ag annog pobl i ddefnyddio'r Gymraeg yn eu bywydau dydd i ddydd drwy rannu hoff eiriau Cymraeg ein staff. Ar Ddydd Gwyl Dewi, fe wnaethon ni ddathlu ein cleifion lleiaf, sydd eisoes yn falch o fod yn Gymry.

# YMGYSYLLTU: GYDA GWEITHLU'R DYFODOL


Rydym wedi parhau i weithio'n agos gydag ysgolion a cholegau lleol i godi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o ba mor bwysig yw hi i'n Bwrdd Iechyd allu cynnig gwasanaethau Cymraeg ar draws ein holl safleoedd i gleifion a defnyddwyr gwasanaethau sy'n siarad Cymraeg.

***Ysgolion Uwchradd***

Rydym wedi ymweld ag ysgolion uwchradd cyfrwng Cymraeg a chyfrwng Saesneg eleni. Mae'r uned wedi cymryd rhan mewn nifer o weithgareddau diwrnod gyrfaoedd gan gynnwys rhwydweithio cyflym a chyflwyniadau i fyfyrwyr uwchradd. Gwahoddwyd yr Uned Iaith i ddigwyddiad Gyrfaoedd blynyddol Caerdydd a gynhaliwyd yn Undeb Myfyrwyr Caerdydd. Mae'r digwyddiad hwn ar gyfer myfyrwyr chweched dosbarth o bob ysgol cyfrwng Cymraeg ledled De Cymru. At ei gilydd rydym wedi ymgysylltu â dros 750 o fyfyrwyr.

**Colegau**

Rydym yn parhau i weithio'n agos gyda Choleg Gwent a Choleg y Cymoedd i godi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd y Gymraeg o fewn Gofal Iechyd. Rydym wedi cyflwyno'r sesiynau hyn i dros 100 o fyfyrwyr.




Gyrfa Cymru Careers Wales

**Profiad Gwaith**

Yn dilyn Diwrnod Gyrfaoedd Caerdydd, rydym wedi cael ceisiadau gan fyfyrwyr sy'n awyddus i gwblhau cyfnod o brofiad gwaith trwy gyfrwng y Gymraeg o fewn y Bwrdd Iechyd.

Syrjeri Sgiliau yw ein rhaglen ar gyfer plant ysgol gynradd sydd wedi'i chynllunio i ymgysylltu, herio ac ysbrydoli plant ysgol gynradd ynglŷn â gyrfaoedd ym maes iechyd.

Mae’r rhaglen Syrjeri Sgiliau wedi cael derbyniad da gan yr holl fyfyrwyr a staff yn yr ysgolion y mae’r rhaglen wedi cael ei chyflwyno ynddynt, fodd bynnag, mae cyfyngiad o ran ei chyrhaeddiad oherwydd yr adnoddau staffio sydd eu hangen ar gyfer ei chyflwyno. Rydym hefyd wedi darganfod nad oes modd i lawer o ysgolion ganiatáu i ddarparwyr allanol gyflwyno sesiynau i'r plant.

Gyda hyn mewn golwg rydym wedi gweithio'n agos gydag athrawon cymwys a phrofiadol i ddatblygu adnodd a fydd yn caniatáu i ysgolion gyflwyno'r sesiynau eu hunain. Mae'r deunydd wedi'i osod fel cynlluniau gwersi cam wrth gam. Mae'r gwersi wedi'u halinio â chwricwlwm Cymru ac yn nodi pa elfennau o'r cwricwlwm sy’n berthnasol wrth gyflwyno'r wers. Mae adnoddau i gyd fynd â'r holl wersi ac mae newidiadau wedi’u gwneud i’r gweithgareddau sydd wedi'u cynnwys er mwyn sicrhau y gellir eu cyflwyno i'r gwahanol lefelau o allu a geir o fewn amgylchedd dosbarth.

Lansiwyd y cynnig newydd hwn yn ffurfiol yn Eisteddfod yr Urdd ym mis Mai a’r Eisteddfod Genedlaethol ym mis Awst 2025. Y gobaith yw y gall ysgolion cynradd ledled Cymru ddefnyddio'r adnodd.


FFOCWS Y WERS
Gwers 1
Rolau yn y GIG

GEIRFA
- Meddyg
- Nyrs
- GIG - Gwasanaeth Iechyd Gwladol
- gwisg


ADNODDAU
- PPT 1 Animeiddiad 1 'Dod o
- hyd i'r swydd' yn y GIG yn yr
- adnodd lluniau a chwyddwydrau Grid Gweithgareddau Swyddi x3
- Taflen Waith 1.2a,b,c Templed Cystadleuaeth Taflen Waith
- 1.1a ac 1.1b - Meddyg a Nyrs
- Cwis


AMCAN/AMCANION
- Er mwyn deall beth yw'r GIG.
- Deall y gwahanol rolau o fewn y GIG.

PEDWAR DIBEN
Dinasyddion Egwyddorol Gwybodus

CWRICWLWM I GYMRU
**Iechyd a Lles - PS3**
- Gallaf ofyn am help pan fydd ei angen arnaf gan bobl rwy'n ymddiried ynddynt.

**Dyniaethau - PS3**
- Gallaf ddisgrifio sut mae rhai nodweddion gwahanol cymunedau a chymdeithasau wedi newid, o fewn ac ar draws cyfnodau o amser, yn fy ardal leol ac yng Nghymru, yn ogystal ag yn y byd ehangach.
- Mae gen i ddealltwriaeth o sut mae ffactorau yn y gorffennol a'r presennol wedi siapio fy nghymunedau.


Name/Enw:
Doctor
Characteristics/Skills
kind
Nurse
Task/Tasg: Draw a picture of a doctor and nurse. Use these words to match up the skills and qualities that each person would need. Add two more of your own.
kind confident healthy cheerful courageous determined organised ambitious


Name/Enw:
Characteristics/Skills
Is your picture of a **doctor** male or female?
Is your picture of a **nurse** male or female?
Can doctors be male or female?
yes no maybe
Can nurses be male or female?
yes no maybe
equality
equal opportunities
discrimination
fairness
Explain why it is important to have male and female doctors and nurses.
Task/Tasg:
- Challenging Gender Stereotypes.

# YMGYSYLLTU Â STAFF

Rydym yn sylweddoli bod sicrhau ein bod yn parhau i godi ymwybyddiaeth staff ynghylch pwysigrwydd cynnig gwasanaethau Cymraeg i ddefnyddwyr ein gwasanaeth yn rhan hanfodol o’n gwaith. Rydym yn parhau i weithio'n agos gyda staff ein Bwrdd Iechyd gan sicrhau eu bod yn ymwybodol o'u dyletswyddau a'r rolau gwerthfawr y maent yn eu chwarae o ran gofal cleifion yn y Gymraeg.

***Sioeau teithiol***

Mae'r uned wedi cymryd rhan mewn 'Sioeau Teithiol' ar draws ein safleoedd eleni. Mae wedi dod yn amlwg bod y sesiynau yn ffordd wych o ryngweithio â staff sy’n gwneud gwahanol swyddi. Mae'r pwyslais wedi bod ar godi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd cynnig gwasanaeth Cymraeg, y 'Cynnig Gweithredol' a pha gyfleoedd sydd ar gael ar gyfer hyfforddi staff. Mae'r sesiynau hyn hefyd wedi bod yn gyfle gwych i ddosbarthu adnoddau Cymraeg i gefnogi ein staff.

***Rhaglen Datblygu Arweinwyr***

Rydym yn parhau i gefnogi'r Rhaglen Datblygu Arweinwyr, mae'r sesiynau hyn ar gyfer arweinwyr newydd neu’r rheiny sy’n awyddus i ddod yn arweinwyr o bob agwedd ar waith y Bwrdd Iechyd ac mae’n cynnwys staff clinigol ac anghlinigol. Mae'r sesiynau wedi ein galluogi i ganolbwyntio ar ein gofynion fel Bwrdd Iechyd i ddarparu gwasanaethau yn y Gymraeg, pwysigrwydd ac effaith gwasanaethau Cymraeg ar ein cleifion a defnyddwyr gwasanaethau a'r rolau y mae ein staff yn eu chwarae wrth sicrhau ein bod yn cynnig gwasanaethau Cymraeg i bawb sydd eu hangen. Yn ystod cyfnod adrodd yr adroddiad hwn rydym wedi cyflwyno i 268 o gyfranogwyr ar y rhaglen hon.



***Llwybr clinigol Gweithiwr Cymorth Gofal Iechyd (HCSW)***

Mae'r Gweithwyr Cymorth Gofal Iechyd sy'n gweithio ar draws ein safleoedd yn chwarae rhan hanfodol yng ngofal ein cleifion. Fel arfer, nhw yw'r staff sydd â'r cyswllt mwyaf â defnyddwyr ein gwasanaeth, felly rydym yn cydnabod pwysigrwydd sicrhau bod gan ein Gweithwyr Cymorth Gofal Iechyd ddealltwriaeth a gwerthfawrogiad o bwysigrwydd cynnig gwasanaethau Cymraeg i'n cleifion a'n defnyddwyr gwasanaeth. Mae'r sesiynau hyn yn rhoi cyfle gwych inni dynnu sylw at sut y gallwn gefnogi ein staff o ran y Gymraeg, ein dyletswyddau fel Bwrdd Iechyd a thynnu sylw at pa gyrsiau sydd ar gael iddynt. Yn ystod y cyfnod adrodd hwn, cymerodd 244 o staff ran yn y sesiynau hyn.

***Cynadleddau***

Rydym wedi mynychu nifer o gynadleddau mewnol eleni sydd wedi ein galluogi i gysylltu â staff o bob rhan o'n Bwrdd Iechyd. Mae'r dyddiau hyn yn gyfle gwych i ni barhau i godi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd a'r angen i gynnig ein gwasanaethau yn y Gymraeg. Maent hefyd yn ffordd wych o ddosbarthu adnoddau a pharhau i ddarparu cefnogaeth i'n staff.

***Gweithdy ar y Gymraeg***

Cynhaliodd Uned y Gymraeg ei weithdy cyntaf yn y Bwrdd Iechyd fel rhan o Grŵp Strategol yr Iaith Gymraeg. Pwrpas y gweithdy gwirfoddol oedd mesur dealltwriaeth bresennol y staff o gyfrifoldebau'r Bwrdd Iechyd, ble mae nhw'n teimlo eu bod ar hyn o bryd mewn perthynas â hynny, a ble hoffen nhw fod (gan gynnwys creu eu cynllun gweithredu eu hunain ar sut i gyrraedd y pwynt hwnnw). Mae'r adborth a dderbyniwyd wedi bod yn gadarnhaol a byddwn yn cysylltu ymhellach gyda'r rheiny â gymerodd ran i sicrhau eu bod yn derbyn ein cefnogaeth lawn wrth roi eu cynlluniau ar waith.

Yn dilyn y gweithdy, cawsom gais gan arweinwyr o wasanaethau Nyrsio Ysgolion a Phlant sy'n Derbyn Gofal i ddarparu sesiwn Ymwybyddiaeth o'r Gymraeg bwrpasol i'w staff. Tynnodd hyn sylw at fanteision y gweithdai uchod. Cafodd y sesiwn dderbyniad da gan y staff, a bu cyfle i ni ddarparu adnoddau i'r staff (megis bathodynnau, laniardau ac ati), codi ymwybyddiaeth ynghylch cyfleoedd dysgu, ac amlygu aelodau o fewn y gwasanaeth oedd yn siaradwyr Cymraeg.  Ein cynlluniau ar gyfer cyfnodau adrodd yn y dyfodol yw adeiladu ar y cynnydd hwn.

# ADNODDAU A HYFFORDDIANT AR GYFER STAFF

Mae'r uned yn parhau i gefnogi staff gyda phob agwedd ar ddysgu Cymraeg. Rydym wedi cael llif cyson o staff yn cofrestru ar gyfer cyrsiau Cymraeg eleni. Mae dysgwyr wedi cael eu cyfeirio at Goleg Gwent, Nant Gwrtheyrn, ap SSiW a'r chwrs Cymraeg i Ddechreuwyr 'Croeso'. Rydym wedi gweld nifer o staff yn cwblhau'r sesiynau codi hyder gyda'n dau diwtor o Goleg Gwent ac mae'r tiwtoriaid bellach ar fin dechrau'r Sesiynau Blasu Cymraeg newydd.

***Caffi Cymraeg***

Rydym wedi cynnal sawl sesiwn 'Caffi Cymraeg' eleni. Ymunodd staff â'n tiwtoriaid o Goleg Gwent am 'baned a sgwrs' drwy gyfrwng y Gymraeg. Roedd y sesiynau'n gyfle gwych i staff â gwahanol lefelau o'r Gymraeg ddod at ei gilydd ac ymarfer defnyddio eu sgiliau. Fe wnaethon ni fanteisio ar y cyfle hwn i ddosbarthu adnoddau dysgu y gallai staff eu defnyddio yn eu gweithleoedd er mwyn helpu i feithrin hyder wrth ddefnyddio eu sgiliau Cymraeg gyda chleifion a defnyddwyr gwasanaeth.







Mewn partneriaeth a chydweithrediad â darparwyr hyfforddiant fel 'Say Something in Welsh' a'r 'Ganolfan Dysgu Cymraeg' rydym yn parhau i ddarparu cyfleoedd dysgu amrywiol i'r holl staff o fewn y Bwrdd Iechyd ond mae gennym ambell i strategaeth benodol newydd ar gyfer 2025-2026. Bydd y rhain yn gwneud mwy o ddefnydd o'r adnodd sydd gennym trwy ein tiwtoriaid Cymraeg yng Ngholeg Gwent. Mae rhai o'r rhaglenni hyn ar y gweill ond maent wedi'u cysylltu â **Chynllun Strategol Iechyd a Gofal Llywodraeth Cymru ar gyfer Dysgu Cymraeg.**

Ar gyfer 2025-26, bydd 4 ffrwd waith benodol ar gyfer staff:

**1. Codi Hyder** - Sesiynau 1:1 gyda thiwtor Coleg Gwent am gyfnod o 12 wythnos

**2. Sesiynau Ôl-ofal** – sesiynau i unigolion sydd wedi cwblhau cwrs Codi Hyder ond sydd eisiau parhau i dderbyn cefnogaeth. Bydd y sesiynau hyn, a fydd yn cael eu cynnal yn llai aml, yn rhoi hwb iddyn nhw barhau i ddefnyddio eu Cymraeg yn y gwaith.

**3. Gweithdai Croeso 1.5 awr** - gweithdai untro gyda thiwtor i gynorthwyo sefydliadau gyda'r targed cenedlaethol Mwy na Geiriau i sicrhau bod ein holl staff yn gallu defnyddio'r Gymraeg ar lefel gwrtais erbyn 2027

**4. Cyrsiau Croeso i Bawb 10 awr** – llwybr dysgu sy'n pontio rhwng y sesiwn Croeso 1 awr a Gwersi Lefel Mynediad

## ***Staff yn Nant Gwrtheyrn***

Mae'r cwrs 'Codi Hyder a Defnyddio dy Gymraeg', a gynhelir yn Nant Gwrthern, ar gyfer staff y GIG yng Nghymru sydd â sgiliau Cymraeg ond a hoffai ymarfer gyda chymorth tiwtoriaid arbenigol mewn amgylchedd ble maent yn cael eu trochi.

Mynychodd nifer o staff y cwrs trochi codi hyder 5 diwrnod eleni. Roedd rhai staff wedi bod yn siaradwyr Cymraeg yn y gorffennol a oedd wedi colli hyder o ran defnyddio eu sgiliau tra bod eraill yn ddysgwyr a oedd yn gobeithio gwella eu sgiliau Cymraeg ymhellach. Roedd staff yn gallu ymarfer defnyddio eu sgiliau Cymraeg mewn amgylchedd 'ddiogel' heb gael eu barnu gyda dysgwyr o wahanol rannau o GIG Cymru. Rhoddodd y cwrs gyfle iddyn nhw ddefnyddio eu Cymraeg yn eu bywyd dydd i ddydd wrth aros yn yr encil ond yn rhoddodd gyfle iddynt hefyd ei ddefnyddio pan oedden nhw allan yn ymweld â gwahanol weithgareddau ac atyniadau.

Nant Gwrtheyrn



**Astudiaeth Achos Doug Evans - Nant Gwrtheyrn**

Dyw dysgu iaith erioed wedi sticio i mi tan nawr. Cefais fy magu yn Sir Benfro lle nad oedd dysgu Cymraeg fel plentyn yn cael ei feithrin yn ystod y cyfnod y cefais i fy magu, ac rydw i bob amser wedi cael trafferth cael cysylltiad da gyda dysgu Cymraeg fel iaith.

I mi, ar ôl teithio dramor, des i adref i sylweddoli pa mor bwysig oedd hi i mi allu siarad iaith ein gwlad. Roeddwn i hefyd yn teimlo y byddai'n ddefnyddiol iawn. Yn fy ngwaith ym maes cyfathrebu ac ymgysylltu, mae'r gallu i gyfieithu Saesneg i'r Gymraeg yn sgil y mae galw amdani yng Nghymru.

Rydw i eisoes wedi bod yn mynychu sgwrs 1-i-1 wythnosol gyda thiwtor Cymraeg Coleg Gwent diolch i Uned y Gymraeg BIPAB.

Roedd Nant Gwertheryn yn brofiad bythgofiadwy ac rwy'n teimlo, hyd yn oed os mai dyma'r unig dro y byddaf yn mynychu cwrs dwys, y bydd yn gyfnod a newidiodd fy mhrofiad dysgu Cymraeg er gwell. Mae'r safle dysgu ieithoedd wedi'i leoli mewn anheddiad mwyngloddio hanesyddol yng Ngogledd Cymru, ac mae'n swatio rhwng clogwyni serth a môr agored. Roedden ni'n aros yn y tai glofaol wedi'u hadnewyddu, ac roedden ni'n byw'r Gymraeg bob dydd.

Fe ddysgon nhw bwysigrwydd dysgu rhannau allweddol o'r iaith i ni, pa mor bwysig oedd ei deall fel iaith lafar sy'n llifo ac mai dim ond trwy roi cynnig arni, gwneud camgymeriadau a dal ati y byddwn ni'n gwella. Y gwahaniaeth rhwng Nant â'r dysgu arall roeddwn i wedi'i wneud hyd yn hyn oedd trochi.

Os oes unrhyw un yn ystyried gwneud hyn, byddwn i'n dweud *go for it* neu ewch amdani!



# LLWYFANNAU DIGIDOL

Mae'r defnydd o lwyfannau digidol gan y Bwrdd Iechyd, a gan ddefnyddwyr ein gwasanaeth, yn dod yn fwyfwy cyffredin. Mae sicrhau bod pob platfform ar gael yn llwyr yn y Gymraeg yn holl bwysig i'r Bwrdd Iechyd.

**Cyfathrebu â Chleifion yn Ddigidol**

Tynnodd yr adroddiad blaenorol sylw at y gwaith o gaffael system a fyddai'n caniatáu i ddefnyddwyr gwasanaeth dderbyn gohebiaeth amrywiol gan y Bwrdd Iechyd yn ddigidol. Rydym yn falch o allu adrodd bod y system yn datblygu'n dda, a bydd y system ar gael yn gyfan gwbl yn y Gymraeg, gan gynnwys y rhyngwyneb a'r ohebiaeth, ar ôl iddi gael ei lansio. Mae pob llythyr wedi cael ei gyfieithu gan gyfieithwyr cymwys, ac yn cael eu prawfddarllen yn rheolaidd i sicrhau cywirdeb.

**Promptly**

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi caffael platfform adborth cleifion newydd a fydd yn caniatáu i gleifion a defnyddwyr gwasanaeth roi adborth yn ddigidol drwy Fesurau Canlyniad a Adroddwyd gan Gleifion. Bydd pob ffurflen adborth ar gael yn y Gymraeg ac maent wedi cael eu prawfddarllen gan Uned y Gymraeg i sicrhau cywirdeb.

Yn fwy cyffredinol, rydym yn parhau i wella ein dealltwriaeth o sgiliau iaith defnyddwyr ein gwasanaeth. Er ein bod eisoes yn cyfathrebu yn ddwyieithog, ein nod yw mapio'r dewisiadau iaith hyn yn fwy cywir a nodi unigolion sy'n dymuno derbyn gwasanaethau yn y Gymraeg. Bydd hyn yn ein galluogi i fynd ati'n frwd i roi'r mesurau angenrheidiol ar waith ar gyfer darparu gwasanaethau yn y Gymraeg, gan ddefnyddio'r adnoddau sydd ar gael i ni ar hyn o bryd, a chynllunio ein gweithlu ar gyfer y dyfodol.

Drwy gydweithio'n agos â'r timau sy'n datblygu meddalwedd a systemau newydd ar gyfer y Bwrdd Iechyd, gallwn sicrhau bod technolegau a llwyfannau sy'n dod i'r amlwg yn gwbl hygyrch ac yn ymarferol i ddefnyddwyr sy'n dymuno eu defnyddio yn y Gymraeg. Hoffai Uned y Gymraeg ddiolch i'r adran Ddigidol, Data a Thechnoleg am eu hymrwymiad parhaus i agenda'r Gymraeg. Rydym hefyd wrthi'n ymgysylltu â swyddfa Comisiynydd y Gymraeg ar ddatblygiadau mewn Deallusrwydd Artiffisial ac yn disgwyl derbyn eu hadroddiad eleni.

# GWEITHIO AR Y CYD

Gan gydnabod bod cydweithio yn fodd o gyflawni nodau a rennir, rydym yn sicrhau, lle mae cyfleoedd yn codi ar gyfer cydweithio, ein bod yn cydweithio â phartneriaid gan rannu ag eraill, a dysgu gan eraill.

Pennaeth Uned y Gymraeg y Bwrdd Iechyd sy'n cadeirio fforwm Mwy na Geiriau Gwent. Mae hyn yn gyfle i gydweithio â chydweithwyr o bob rhan o'r maes Iechyd a Gofal Cymdeithasol yng Ngwent. Mae'r fforwm yn cynnwys cynrychiolwyr o bob awdurdod lleol yn ogystal â chynrychiolwyr o Goleg Gwent, Coleg y Cymoedd a Menter Casnewydd.

Mae arweinwyr y Gymraeg o bob sefydliad GIG Cymru yn cyfarfod yn rheolaidd. O fewn y grŵp hwn rydym yn rhannu arferion gorau ac yn cydweithio ar brosiectau cenedlaethol. Un enghraifft o hyn fyddai stondin y GIG yn Eisteddfod yr Urdd a'r Eisteddfod Genedlaethol.

# ASESIADAU O'R EFFAITH AR GYDRADDOLDEB AC YMWELIADAU SAFLE

**Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb (EQIA)**

Rydym yn parhau i weithio gyda'n tîm Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant i sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei hystyried yn llawn drwy gydol proses Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb gadarn y Bwrdd Iechyd. Mae aelod o Uned y Gymraeg yn mynychu pob panel Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb er mwyn sicrhau bod cwestiynau priodol yn cael eu gofyn cyn i unrhyw asesiad gael ei dderbyn.

**Ymweliadau safle**

Fel rhan o'n gwaith sicrwydd, rydym yn trefnu ymweliadau rheolaidd ar draws safleoedd Byrddau Iechyd. Rydym yn archwilio ein safleoedd er mwyn dod o hyd i feysydd arfer da yn ogystal â meysydd sydd angen eu datblygu. Rydym yn gweithio gyda'n holl safleoedd ar ddatblygu cynlluniau gweithredu lleol a sicrhau bod ganddynt yr adnoddau i roi'r cynlluniau gweithredu a ddatblygwyd ar waith.


Gan bod sawl safle newydd yn cael eu hagor gan y Bwrdd Iechyd, mae Uned y Gymraeg yn gweithio'n agos gyda'r tîm cynllunio i sicrhau bod Uned y Gymraeg yn rhan o'r broses gynllunio ar yr amser iawn er mwyn sicrhau bod materion sy'n ymwneud â chydymffurfiaeth yn cael eu hystyried a'u datrys. Yna mae Uned y Gymraeg yn ymweld â phob safle newydd i gael sicrwydd.



# DATA DANGOSYDDION PERFFORMIAD

**Sgiliau gweithwyr**

Mae canran y staff sydd wedi cofnodi eu sgiliau Cymraeg ar ESR wedi cyrraedd 86%, sef cynnydd o 5% ers y llynedd a chynnydd o 48% ers 31ain Mawrth 2020.




**Hyfforddiant Ymwybyddiaeth Mwy na Geiriau**

Mae'r modiwl hyfforddiant gorfodol a ddatblygwyd ar lefel Cymru gyfan wedi cael derbyniad da ac mae'n rhoi dealltwriaeth gyffredinol dda i staff o egwyddorion 'Mwy na Geiriau'. Yn ystod ail flwyddyn yr hyfforddiant hwn, rydym wedi cyrraedd cydymffurfiaeth o 83%, cynnydd o 9% o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol.

**Data Sgiliau Recriwtio**

Mae'r data ynghylch nifer y rolau a hysbysebir gyda sgiliau Cymraeg yn hanfodol, yn ddymunol neu angen eu dysgu yn dangos ymrwymiad parhaus y Bwrdd Iechyd i gyflogi staff sydd â'r gallu i gyfathrebu yn y Gymraeg. Mae'r data'n dangos bod 96% o'r rolau a hysbysebwyd gan y Bwrdd Iechyd ar gyfer y flwyddyn 2024-2025 yn dod o dan un o'r categorïau hyn. Gyda chefnogaeth ein cydweithwyr yn yr adran Digidol, Data a Thechnoleg, rydym yn gweithio ar ddatblygu ap a fydd yn cael ei ddefnyddio gan reolwyr recriwtio. Bydd yr ap yn asesu yr anghenion iaith sy'n ofynnol ar gyfer pob swydd a hysbysebir yn fwy effeithiol.

# LEFELAU CYMHWYSTER CYMRAEG EIN STAFF

(YN SEILIEDIG AR ASEINIADAU BYW)


| Gwrando a Siarad | 2022/23 | 2023/24 | 2024/25 |
|---|---|---|---|
| **Lefel 0:** | 9063 | 9528 | 10940 |
| **Lefel 1:** | 2045 | 2038 | 2052 |
| **Lefel 2:** | 434 | 415 | 439 |
| **Lefel 3:** | 161 | 166 | 178 |
| **Lefel 4:** | 151 | 139 | 150 |
| **Lefel 5:** | 277 | 249 | 250 |
| Ddim yn cydymffurfio | 4146<br>-22% o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol | 2882<br>-30% o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol | 1939<br>-33% o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol |

| Darllen, | 2022/23 | 2023/24 | 2024/25 |
|---|---|---|---|
| **Lefel 0:** | 9412 | 9731 | 11159 |
| **Lefel 1:** | 1850 | 1799 | 1817 |
| **Lefel 2:** | 434 | 398 | 422 |
| **Lefel 3:** | 146 | 147 | 155 |
| **Lefel 4:** | 141 | 132 | 148 |
| **Lefel 5:** | 291 | 267 | 264 |
| Ddim yn cydymffurfio | 4003<br>-25% o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol | 2943<br>-26% o'r flwyddyn flaenorol | 1983<br>-32% o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol |

| Ysgrifennu | 2022/23 | 2023/24 | 2024/25 |
|---|---|---|---|
| **Lefel 0:** | 9723 | 10102 | 11565 |
| **Lefel 1:** | 1530 | 1467 | 1475 |
| **Lefel 2:** | 418 | 397 | 418 |
| **Lefel 3:** | 131 | 131 | 133 |
| **Lefel 4:** | 116 | 104 | 122 |
| **Lefel 5:** | 268 | 247 | 239 |
| Ddim yn cydymffurfio | 4091<br>-25% o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol | 2969<br>-27% o'r flwyddyn flaenorol | 1996<br>-32% o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol |

# CYNLLUNIO'R GWEITHLU: RECRIWTIO I SWYDDI GWAG 2024 - 2025

## Cyfanswm y Swyddi Gwag a Hysbysebwyd fel:







# CYFIEITHU

Mae gwasanaethau cyfieithu Cymraeg y Bwrdd Iechyd yn parhau i fod yn llwyddiant. Credwn fod elfen o hyn oherwydd pa mor hawdd yw cael mynediad at y gwasanaeth ei hun, yn ogystal â'r ffaith bod y gwasanaeth ar gael am ddim. Yn ystod y flwyddyn ariannol 2024 i 2025, cyfieithodd y Bwrdd Iechyd:

- 632055 o eiriau yn fewnol; i fyny o 528052 y flwyddyn ariannol flaenorol
- 332094 o eiriau yn allanol drwy'r cytundeb lefel gwasanaeth; i lawr o 368254 y flwyddyn ariannol flaenorol
- Cyfanswm o 964149 o eiriau; i fyny o 896306 yn y flwyddyn ariannol flaenorol



# CWYNION:

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf rydym wedi derbyn 4 cwyn gan ddefnyddwyr gwasanaeth mewn perthynas â'r darpariaeth o wasanaethau Cymraeg. Ymdriniwyd â'r bedair cwyn drwy broses Gweithio i Wella'r Bwrdd Iechyd.

Rydym hefyd wedi derbyn un ymchwiliad gan swyddfa Comisiynydd y Gymraeg. Roedd yr ymchwiliad yn ymwneud â diffyg cydymffurfio â safon 45 sy'n ymwneud â chyhoeddiadau ar gyfryngau cymdeithasol yn benodol:

Pan fyddwch chi'n defnyddio cyfryngau cymdeithasol, mae'n rhaid i chi beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Lluniodd tîm Cyfathrebu ac Ymgysylltu'r Bwrdd Iechyd, mewn cydweithrediad ag Uned y Gymraeg, gynllun gweithredu i sicrhau cydymffurfiaeth lawn a gwell trefniadau llywodraethu. Cyflwynwyd y cynllun gweithredu i swyddfa Comisiynydd y Gymraeg ac fe'i derbyniwyd. Caewyd yr ymchwiliad.



# CASGLIAD A GWELEDIGAETH AR GYFER 2025-2026

Rydym yn cydnabod y bydd y defnydd o lwyfannau digidol yn dod yn gynyddol bwysig ac y byddant yn parhau i dyfu yn ystod y blynyddoedd nesaf, a bydd angen i fersiynau Cymraeg y llwyfannau hynny ddatblygu ar yr un pryd. Felly, byddwn yn parhau i gynorthwyo gyda'r gwaith o ddatblygu llwyfannau a mecanweithiau digidol addas i'w defnyddio gan y cyhoedd drwy gydweithio'n agos â'n cydweithwyr yn yr adran Digidol, Data a Thechnoleg, gan sicrhau bod y Gymraeg wedi'i hymgorffori'n llawn mewn unrhyw gynlluniau yn y dyfodol. At hyn, rydym yn aros am ganllawiau pellach gan Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg ar ddefnyddio deallusrwydd artiffisial drwy gyfrwng y Gymraeg, a byddwn yn diweddaru yn unol â hynny.

Gan roi ffocws ar rannu profiadau defnyddwyr ein gwasanaeth gyda'n staff, rydym yn edrych ar straeon cleifion. Gweithio gyda'n cymunedau i dynnu sylw at wasanaeth da a chydnabod meysydd i'w datblygu.

Byddwn yn ymestyn y rhaglen 'Syrjeri Sgiliau' ymhellach gan ysbrydoli ac addysgu disgyblion ysgolion cynradd mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg gyda'n pecyn cymorth newydd a fydd yn cael ei ddefnyddio ledled Cymru. Bydd y rhaglen yn rhannu gwybodaeth am y cyfleoedd a fydd ar gael o ran cyflogaeth yn y dyfodol.

Byddwn yn parhau â'n gwaith arferol o gynnal ymweliadau safle, siopwr cudd a hapwiriadau ar draws ein gwasanaethau a'n safleoedd fel mesur sicrhau ansawdd mewnol.

Gan dderbyn cyngor gan swyddfa Comisiynydd y Gymraeg, byddwn yn cychwyn gyda chynllun peilot mewn un maes gwasanaeth gyda'r nod o ddeall sut y bydd cynlluniau lleol yn gallu dangos mwy o effaith ar gleifion a rhoi dull gweithredu yn ei le a all nodi meysydd i'w datblygu yn ogystal ag enghreifftiau o arfer gorau y gellir eu defnyddio ar draws meysydd eraill.

Un maes ffocws i Uned y Gymraeg a'r Bwrdd Iechyd yn ystod y flwyddyn nesaf, sef blwyddyn 1 o'n cynllun 5 mlynedd, yw cynyddu nifer yr ymgynghoriadau clinigol sy'n cael eu gwneud drwy gyfrwng y Gymraeg, yn unol â Safon 110 fel y'i gorchmynnwyd gan Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg. Mae'r cynllun, a fydd yn cael ei gyhoeddi ar wefan gorfforaethol y Bwrdd Iechyd, yn ddull wedi'i dargedu, ac yn ddull sy'n seiliedig ar ddata. Ei nod yw darparu gwasanaethau teg i'r rheiny sydd angen, neu sydd eisiau, gwasanaethau clinigol trwy gyfrwng y Gymraeg. Byddwn yn gweithio'n agos gyda'r adran Ffisiotherapi er mwyn rhoi'r cynllun ar waith.

Edrychwn ymlaen at gydweithio â'n cydweithwyr yn yr adran yn ystod y 5 mlynedd nesaf.


Rydym yn falch o fod wedi datblygu ein perthynas waith gadarnhaol ymhellach gyda swyddfa Comisiynydd y Gymraeg ac edrychwn ymlaen at weithio'n unol â'r model cyd-reoleiddio y mae eu swyddfa wedi symud tuag ato.

Rydym yn parhau i ymdrechu er mwyn rhagori o ran ein darpariaeth o wasanaethau Cymraeg ac rydym yn ddiolchgar am y cyfeiriad a'r arweiniad y mae Safonau'r Gymraeg yn eu rhoi yn ogystal â'r cynllun Mwy Na Geiriau. Mae Cynllun Pobl newydd y Bwrdd Iechyd yn cael ei ddatblygu ar hyn o bryd a byddwn yn parhau i wreiddio'r Gymraeg ym mhob agwedd ar ein gwaith.




# CIPOLWG AR DDATA


## Sgiliau Cymraeg y Gweithlu (fel %)




## Sgiliau Cymraeg Wrth Hysbysebu Swyddi (fel %)




## Cyfiethu




## % Staff Wedi Nodi Sgiliau Cymraeg

